Enw _____

DARLLENWCH
Marc 1: 1-9

ADNOD ALLWEDDOL
Marc 1: 7

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 4 Ioan yn bedyddio Iesu

Wyddom ni ddim rhyw lawer am flynyddoedd cynnar bywyd Iesu. Bu'n byw yn Nasareth gyda'i fam, ei chwiorydd a'i frodyr yn ystod y cyfnod hwn. Does dim mwy o sôn am Joseff chwaith wedi i Iesu gyrraedd 12 oed. Mae'n bosibl i Iesu ddilyn crefft Joseff fel saer.
Pan oedd Iesu tua 30 oed, dechreuodd Ioan Fedyddiwr bregethu. Roedd Ioan wedi bod yn byw yn yr anialwch lle bu'n bwyta locustiaid a mêl gwyllt. Paratoi pobl ar gyfer dyfodiad Crist, yr Arglwydd, oedd ei waith arbennig ef. Gwyddai Ioan fod yr Un oedd i ddod yn llawer gwell ac yn fwy nerthol nag ef. "Nid wyf fi'n deilwng i blygu a datod carai ei sandalau Ef," meddai.

C Cyhoeddai Ioan:

"Paratowch ffordd yr Arglwydd."

Lliwiwch y geiriau o Marc 1: 4

4

C Llanwch y geiriau sydd ar goll yn y brawddegau canlynol i ganfod beth ddywedodd Ioan am yr Arglwydd Iesu.

deilwng cryfach sandalau

"Y mae un _ _ _ _ _ _ na mi yn dod ar fy ôl i."

"Nid wyf fi'n _ _ _ _ _ _

i blygu a datod carrai ei _ _ _ _ _ _ _ _ ef."

6



Bu Iesu'n byw bywyd tawel gyda'i deulu am tua 30 mlynedd. Bellach, roedd yr amser wedi dod Iddo ddechrau galw pobl at Dduw ac i bregethu'r Newyddion Da y soniodd yr angylion amdano ar noson Ei eni!
Bedyddiwyd Iesu gan Ioan yn Afon yr Iorddonen. Ni fedrai Ioan ddeall pam fod angen i Rywun mor arbennig gael Ei fedyddio. Er bod Iesu yn berffaith ac yn Un na fyddai fyth angen maddeuant, doedd E ddim am ymddangos yn falch neu uwchlaw pobl gyffredin. Felly, o gael Ei fedyddio, roedd Iesu yn dangos Ei fod yn awyddus i adnabod pobl bechadurus fel chi a fi!

C **Pwy fedyddiodd Iesu?** _ _ _ _

Ble cafodd Iesu Ei fedyddio? Yr Afon _ _ _ _ _ _ _ _ _

Ni fyddai fyth angen hwn ar Iesu. _ _ _ _ _ _ _ _

6

Bellach, roedd Iesu ar fin dechrau ar gyfnod o dair blynedd o bregethu ac iachau. Yna, byddai'n marw ar y Groes ac yn dod yn ôl yn fyw dri diwrnod yn ddiweddarach!
Do, darostyngodd Iesu - Mab Duw - Ei Hun, er mwyn i ni dderbyn maddeuant am ein pechodau a dod yn ffrindiau gyda Duw.
Heddiw, bron 2000 o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae miliynau o bobl yn adnabod ac yn caru'r Arglwydd Iesu. Ydych chi'n Ei adnabod ac yn Ei garu fel eich Gwaredwr a'ch Arglwydd?

4

"Iesu, Fab Duw."

Lliwiwch y geiriau.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120